



Prosiect Pererindod Penrhys
Adnodd Addysg Lefel AS:
Taith y Pererin



Diben y prosiect yw olrhain taith y pererin o'r oesoedd canol i'r oes fodern. Mae'n gofyn i fyfyrwyr i feddwl am y disgwyliadau oedd 'na i bererinion y canol oesoedd - pa mor galed oedd eu hymdrech, a beth oedd eu profiad wrth iddyn nhw deithio. Mae hefyd yn gofyn iddyn nhw i feddwl am sut a pham bod hynny, am wahanol resymau, yn amrywio.

Cyflwyniad

Mae mynd ar bererindod yn arfer cyffredin yn y rhan fwyaf o grefyddau, er bod ei ffurf a'r ffordd mae'n cael ei gyflawni yn amrywio. Yn y rhan fwyaf o draddodiadau Cristnogol, mae pererindota yn cynnwys mynd ar daith i ymweld â man sanctaidd o rhyw fath (fel bedd sant, ffynnon sanctaidd, neu ddelwedd o gyflawni gwyrth.) Roedd hyn yn cael ei wneud gyda'r gobaith o elwa o ryw wyrth neu gilydd, neu i roi diolch am wyrth oedd eisioes wedi digwydd.

Atyniadau Crefyddol

Yn yr oesoedd canol, pan gafodd y rhan fwya o'r safleoedd lle mae pererinion yn dod iddyn nhw heddiw i addoli eu sefydlu, roedd hi'n arfer gan y bobl oedd yn gyfrifol amdanyn nhw i'w haddasu fel bod y pererinion yn cael y profiad sanctaidd priodol.

Fe allai hyn ymestyn allan i lwybr y pererinion lle y gallai atyniadau llai ddatblygu fel allorau a chapeli bychain, i gwrdd ag anghenion ysbrydol y pererin ar ei daith. Ar adegau eraill, fe fyddai llwybrau'r pererinion yn mynd un ffordd neu'r llall i gynnwys llefydd sanctaidd oedd eisioes yn bodoli, gan efallai gynnig dewis o nifer o wahanol safleoedd.

A ydych chi'n meddwl bod y pererinion wedi manteisio ar y cynigion hyn, neu a oedden nhw'n cael eu cymell i deithio ar hyd ffordd arbennig i ymweld â nhw? Pa mor bwysig oedd hi i bererinion alw heibio safleoedd sanctaidd eraill wrth deithio?

Symudiad Pererinion

Yn draddodiadol, mae mynd ar bererindod yn cael ei ystyried yn weithred sy'n cynnwys cerdded. Efallai bod hynny oherwydd bod angen mwy o ymdrech

wrth gerdded. Ond mae'n debyg hefyd bod y ddelwedd sydd gyda ni o sut oedden nhw'n mynd ar bererindod yn deillio o'r oesoedd canol pan nad oedd 'na lawer o ddewis ond cerdded. Ond mewn gwirionedd yn y cyfnod yna fe fyddai'r mwyafrif yn mynd ar gefn ceffyl, neu yn cael eu cludo mewn certiau, neu hyd yn oed hwyllo am beth o'r ffordd. Fe allai pererinion cyfoes seiclo, marchogaeth ceffyl, gyrru neu hyd yn oed hedfan am ran neu'r holl ffordd, er bod cerdded yn dal i gael ei ystyried fel y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y dulliau canoloesol a'r cyfoes o deithio, a maint yr ymdrech a wnaed i fynd ar bererindod, wedi arwain at ddadlau sylweddol ynghylch beth sydd bwysicaf. Ai pellter taith y pererin oedd bwysicaf? Neu oedd maint yr her yn bwysicach na'r pellter? Er enghraifft, byddai hanner can milltir ddim yn gymaint a hynny o broblem i ddyn iach yn teithio yn yr haf ag a fyddai pum milltir i rywun ag anabledd difrifol. Mae dringo rhiw, ymweld â safle anghysbell, neu groesi môr garw peryglus yn brawf eich bod yn barod i ymdrechu'n galed ac i gymryd risgiau i gyrraedd pen eich taith.

Beth y'ch chi'n meddwl sydd bwysicaf? A ddylai pererinion ddioddef caledi i dderbyn gwobr ysbrydol?

Gweithgarwch

Dychmygwch bod rhaid i chi esbonio'r syniad o fynd ar bererindod, a'r ffordd y mae pererin yn ei chymryd i gyrraedd ffynnon sanctaidd, cerflun, neu allor, i grwp o fyfyrwyr iau trwy ddatblygu gêm.

Fe allwch ddefnyddio Penrhys fel model, neu safle arall yr ydych efallai yn gyfarwydd ag ef fel Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi, neu Ynys Enlli. Neu fe allech lunio llwybr eich pererindod rhithiol gyda'ch safleoedd sanctaidd a rhwystrau naturiol eich hun. Gallwch benderfynu p'un ai gosod y gêm yn yr oesoedd canol neu yn y presennol.

- Sut fydddech chi'n ei llunio fel gêm - gêm fwrdd neu gêm fideo? Sut fydddech chi'n cynllunio'r bwrdd/tirlun?
- Sut fydddech chi'n creu eich cymeriad pererin neu ddarn chwarae?
- Pa heriau y byddai'n rhaid i'ch pererin eu hwynebu?
- Beth fyddden nhw'n mynd gyda nhw?
- A fyddai angen unrhyw beth arnynt ar y daith?
- Pwy neu beth fyddai ar gael i'w helpu?
- Beth fyddent yn ei weld wrth iddyn nhw deithio?
- Beth sy'n digwydd pan fyddant yn cyrraedd pen eu taith? Sut oedd y daith a'r tirlun o'u cwmpas wedi effeithio ar eu pererindod?

Meddyliwch sut y mae'n rhaid i'ch chwaraewyr sy ar bererindod ennill neu golli pwyntiau a beth allai eu harafu neu eu cyflymu.

Gallech gael gwahanol fathau o bererinion (ifanc, hen, rhai ag afiechyd, cyfoethog, tlawd), ystyriwch sut maen nhw'n teithio(ar droed, ar geffyl, ar feic, neu hyd yn oed mewn car), neu, meddyliwch am y gwahanol beryglon yr oeddent yn eu wynebu oherwydd y rhwystrau, oedd yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn yr oeddent yn teithio..

Adnoddau Posib

Mae Y Ffordd Sistersaidd (www.cistercianway.wales) yn awgrymu nifer o lwybrau pererinion o gwmpas Cymru, gan gynnwys i Benrhys sy'n nodi'r golygfeydd ar hyd y ffordd.

Mae Taith Pererin Gogledd Cymru (pilgrims-way-north-wales.org) yn ail greu llwybr y pererinion ar draws Gogledd Cymru. O dan yr adran Y Llwybr a Mapiau gallwch ddod o hyd i ddisgrifiadau o bob rhan o'r daith sy'n amlygu'r safleoedd crefyddol yn ogystal â'r llwybrau yn yr ucheldir a'r coetiroedd.

Mae mapiau Google yn gallu'ch helpu i drefnu'ch taith o un lle i'r llall, ac i nodi pethau ar y ffordd all fod yn berthnasol i'r pererin. Gallwch hefyd drefnu'ch llwybr i gerdded ar ei hyd, neu fynd mewn car, neu trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Wedi ei gynhyrchu gan Dr Kathryn Hurlock

Prifysgol Metropolitan Manceinion ynghyd â Phrosiect Pererindod Penrhys.